# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20 Ionawr 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**David Melding (Canol De Cymru):** Sawl cwmni a gafodd gymorth busnes dan bob elfen o'r rhaglen Cronfa Fuddsoddi Sengl ar gyfer; dechrau; ehangu; moderneiddio; ailstrwythuro; datblygu cynnyrch newydd; prosesau a gwasanaethau; cyngor arbenigol; cymorth busnes cyffredinol a mentora rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2009 a sut yr oedd hyn yn cymharu â'r targedau ar gyfer pob un o elfennau'r Gronfa Fuddsoddi Sengl. (WAQ55395)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Chwefror 2010***

O ran dechrau busnes, cyngor arbenigol, mentora a chymorth busnes cyffredinol yn seiliedig ar weithgarwch blaenorol ein targed blynyddol yw cynorthwyo tua 900-1000 o fusnesau. Yn y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2009, cymeradwywyd 496 o geisiadau.

O ran elfennau "Craidd" y Gronfa Fuddsoddi Sengl gan gynnwys datblygu, moderneiddio, ailstrwythuro a datblygu cynhyrchion/prosesau neu wasanaethau newydd, cafodd 314 o gynigion o gymorth eu gwneud yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2009. Ni phennwyd unrhyw dargedau ar gyfer nifer y cynigion a wneir o dan elfennau "craidd" y Gronfa Fuddsoddi Sengl am fod y cynllun wedi'i sefydlu i ddiwallu anghenion busnes ac fe'i harweinir felly gan y farchnad.

**David Melding (Canol De Cymru):** Beth yw'r cyfnod cyfartalog rhwng anfon yr ymholiad cychwynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru a dyfarnu'r cyllid ar gyfer cwmnïau sy'n gwneud cais am gymorth yn rhaglenni'r Gronfa Fuddsoddi Sengl. (WAQ55396)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Chwefror 2010***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog ar hyn o bryd.

**David Melding (Canol De Cymru):** Pa gyfran o'r Rhaglen Cymorth Busnes oedd wedi cael ei gwario erbyn 31ain Hydref 2009. (WAQ55397)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Chwefror 2010***

Ar 31 Hydref 2009, roedd gwariant ar y Rhaglen Cymorth Hyblyg i Fusnesau yn cyfateb i 22% o'r gyllideb flynyddol gyffredinol ar gyfer 2009-2010.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i'r cyfyngiadau diweddar ar hyrwyddo alcohol yn y fasnach â thrwydded i weini alcohol yn yr Alban ac a ddylid defnyddio mesurau o'r fath yng Nghymru. (WAQ55398)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Ionawr 2010***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi dull gweithredu Llywodraeth yr Alban i fynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Nid yw'r cyfrifoldeb am drwyddedu wedi ei ddatganoli, ond rydym yn awyddus i roi cyfyngiadau tebyg ar waith ac wedi bod yn lobio Llywodraeth y DU yn barhaus i

gymryd camau priodol. Rydym hefyd yn ystyried pa gamau pellach y gallwn eu cymryd o ran yr agenda hon o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau faint sydd wedi cael ei dalu i Fyrddau Iechyd Lleol er mwyn ad-dalu am bresgripsiynau am ddim rhwng 1af Ebrill a 1af Rhagfyr 2009 a faint o'r cyllid hwnnw sy'n berthnasol i gleifion na fyddent wedi bod yn gymwys cyn mis Ebrill 2007. (WAQ55399)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Chwefror 2010***

Mae £581m wedi cael ei ddyrannu ar gyfer presgripsiynu gan Feddygon Teulu yn 2009/10. Rhwng mis Ebrill 09 a mis Hydref 09 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael) talwyd £338.7m i ad-dalu costau cyffuriau. Nid yw hyn yn cynnwys gweinyddu na ffioedd proffesiynol gan nad yw'r rhain yn cael eu cofnodi'n unigol yn ôl pob eitem.

Gan fod pob claf yng Nghymru wedi'i eithrio rhag talu, ni chaiff wybodaeth o ran pwy sydd wedi'u heithrio ei chofnodi.